

# **Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad o Berfformiad, 2021 i 2022**

Ynghyd â'n pedwar adroddiad diweddarau ar gyfer 2021 i 2022 a ddefnyddiwyd fel ein hasesiad parhaus drwy gydol y flwyddyn, mae'r ddogfen hon yn llunio ein Hunanasesiad o Berfformiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n cyflwyno crynodeb diwedd blwyddyn hwylus o'n perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau allweddol, yn benodol, ein Hamcanion Lles (y cyfeirir atynt hefyd fel ein Blaenoriaethau Corfforaethol), y saith maes llywodraethu a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd).

I adolygu'r dystiolaeth y tu ôl i gasgliadau'r ddogfen hon, trowch at yr Adroddiadau Diweddarau ar Berfformiad, a gyhoeddwyd ar ein [gwefan](#).

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

# Cynnwys

Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth	3
Ein Dulliau Hunanasesu	4
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	5
Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022	5
Tai	5
Cymunedau wedi'u Cysylltu	6
Cymunedau Cryf	6
Yr Amgylchedd	7
Pobl Ifanc	7
Swyddogaethau Llywodraethu – Iechyd Corfforaethol y Cyngor	8
Cynllunio Corfforaethol	8
Cynllunio Ariannol	9
Rheoli Perfformiad	9
Rheoli Risg	10
Cynllunio'r Gweithlu	10
Asedau	11
Caffael	11

## Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Dros E-BOST:** [timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk](mailto:timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk)

**Dros y FFÔN:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

### Drwy'r POST:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Dilynwch ni ar [Twitter](#)

Ewch i [wefan y Cyngor](#) i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i [Borth Sgwrs y Sir](#) a chofrestru ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i [Newyddlen Llais y Sir](#)

## Ein Dulliau Hunanasesu

Byddai'n fuddiol i ni egluro ein dulliau Hunanasesu yn fras yn y ddogfen hon, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf y mae gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hyn.

Ar ddiwedd 2021 i 2022, bu i'r cyngor dreialu arddull newydd o Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fyddai'n ymateb i ofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ymestyn ein dull presennol i adlewyrchu hefyd ar Iechyd Corfforaethol y sefydliad. Ar sail cyngor gan archwilydd annibynnol a gomisiynwyd gan CLILC, byddai hyn yn diwallu'r angen i adrodd ar 'swyddogaethau'r cyngor'. Roedd ein hadroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r saith maes llywodraethu a argymhellwyd yng nghanllawiau statudol y Ddeddf, yn ogystal ag ymdrech mwy penodol i restru gweithgarwch ein prif gyfarfodydd (y Cyngor, y Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio), eitemau newyddion allweddol ac adroddiadau gan ein hadran archwilio fewnol a'n rheoleiddwyr allanol.

Bu i ni ddysgu o adroddiad y llynedd (a oedd tua chan tudalen o hyd) bod gennym swmp mawr o dystiolaeth mewn perthynas â sut rydym yn perfformio, ond ei bod yn anodd gwneud dogfen o'r fath yn hawdd ei darllen. Mae'r ddogfen hon yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem honno drwy ddarparu dim ond datganiadau cryno lefel uchel iawn sy'n asesu ein perfformiad, gan roi ystyriaeth i gyfoeth y wybodaeth o ansawdd sydd wedi'i rhestru'n gynhwysfawr yn ein hadroddiadau Diweddarau ar Berfformiad chwarterol (a oedd yn defnyddio'r un templed hunanasesu y bu i ni ei ddatblygu ar gyfer ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol diwethaf). Fel hyn, rydym wedi bod yn hunanasesu'n barhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae'n ofynnol i'r cyngor nodi camau gwella yn ei broses hunanasesu, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn eu herbyn mewn adroddiadau hunanasesu dilynol. Rydym wedi gwneud hyn drwy ein hadroddiadau Diweddarau ar Berfformiad chwarterol (gan gefnogi'r egwyddor o asesu parhaus), sydd nid yn unig wedi nodi camau gwella wrth eu cynhyrchu, ond hefyd wedi codi camau gwella a nodwyd yn rhaglen Her Perfformiad Gwasanaeth y cyngor, a gynhaliwyd yn ystod haf 2021. Mae Heriau Perfformiad Gwasanaeth yn gyfle i sicrhau uwch reolwyr ac aelodau'r Cabinet a'r pwyllgor Craffu am berfformiad ein gwasanaethau a'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Yn olaf, yn ogystal ag adolygu swmp tystiolaeth mewnol ac allanol i lywio ein hunanasesiad, mae yna ofynion newydd o ran ymgysylltu'n flynyddol â rhestr gynhwysfawr

o fudd-ddeiliaid ynglŷn â pherfformiad ein swyddogaethau (amcanion a llywodraethu). Yn ystod 2021, bu i'r cyngor ddiweddar ei Arolwg Trigolion (a elwir bellach yn 'Arolwg Budd-ddeiliaid') i ofyn cwestiynau penodol sydd bellach yn ofynnol o dan y Ddeddf. Ceir dadansoddiad o'r canlyniadau yn ein hadroddiadau Diweddar ar Berfformiad, a bydd y cyngor yn edrych ymlaen at gynnal ymarferion ymgysylltu tebyg yn flynyddol fel rhan o'i ddulliau Hunanasesu.

## **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae'r cyngor yn parhau i gyflwyno nifer o fentrau gwyb i gefnogi unigolion â nodweddion gwarchoddedig sy'n byw mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Eleni, rydym wedi adnewyddu ein hymrwymiad i gydraddoldeb, a gyhoeddwyd yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro](#). Mae'r cyngor wedi addo bod yn gyngor amrywiol sy'n cefnogi hygyrchedd ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol. Drwy ein hadroddiadau diweddar ar berfformiad chwarterol, rydym wedi gwella ein dulliau o adrodd am weithgarwch cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd gwelliannau i'n Hasesiadau o'r Effaith ar Les a'u cyhoeddiad yn llywio ac yn cefnogi tryloywder ein prosesau gwneud penderfyniadau yn well. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i helpu swyddogion ac aelodau i gwblhau a chraffu ar asesiadau o effaith. Bydd cyfle pellach hefyd i godi'r manteision a gyflawnir o ran cefnogi nodweddion gwarchoddedig a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol yn 2022 i 2023. Er bod ein gwaith ymgysylltu ar ddatblygu themâu'r Cynllun Corfforaethol newydd wedi bod yn gynhwysfawr, gwyddom fod angen gwella ein hymgysylltiad â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml neu grwpiau ag anghenion o ran nodweddion gwarchoddedig, ac rydym yn gweithio'n fewnol a gyda chydweithwyr rhanbarthol ar ddatblygu atebion i hyn.

## **Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022**

### **Tai**

Gwelwyd cyflawniadau sylweddol o fewn ein blaenoriaeth tai, sydd wedi bod o fudd uniongyrchol i drigolion ac wedi lleihau anghydraddoldeb. Rydym naill ai'n gwneud cynnydd da (ychwanegol) neu, mewn rhai achosion (fforddiadwy a gwag), yn rhagori ar nifer o'n targedau uchelgeisiol ar gyfer cyflenwi tai. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith da ar wella safonau yn y sector preifat ac wedi gwneud gwelliannau o fewn ein prosesau a'n polisiau ar gyfer cymorth tai a digartrefedd, gan gynnwys y Grŵp Strategol Tai a

Digartrefedd a'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Fodd bynnag, mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn her allweddol i'r cyngor. Er ein bod wedi darparu cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Ninbych, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu'r cyfleuster yn Rhuthun, sydd wedi wynebu oedi sylweddol. Wrth gwrs, mae yna heriau sylweddol yn parhau o ran y tai sydd ar gael, eu fforddiadwyedd a'u safon o fewn y sir, ac rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r rhain.

## **Cymunedau wedi'u Cysylltu**

Mae nifer o brosiectau wedi gwneud cynnydd da o fewn y flaenoriaeth hon, gan gynnwys ein buddsoddiad mewn llyfrgelloedd, sydd wedi helpu unigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac mewn perygl o gael eu heithrio'n ddigidol (yn enwedig yn ystod y pandemig). Mae ein buddsoddiad mewn technoleg nad yw'n cynhyrchu allyriadau a theithio yn ôl y galw hefyd wedi helpu chwalu rhwystrau i deithio, sydd o fantais i unigolion â nodweddion gwarchoddedig o ran oed ac anabledd. Fodd bynnag, mae nifer o'r heriau yr oeddem yn eu hwynebu bum mlynedd yn ôl yn parhau. Er y gwelliant cyffredinol yn ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion cyflwr ffyrdd cenedlaethol dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r buddsoddiad parhaus y mae ei angen i gynnal a chadw ein rhwydwaith gwledig eang yn sylweddol, a gwyddom fod angen gwneud gwelliannau o ran prydlondeb atgyweiriadau. Mae cysylltedd â'r rhyngwrwd, er ei fod wedi gwella llawer dros y pum mlynedd diwethaf, yn dal i fod yn is na chyfartaledd y DU, ac er ein bod wedi defnyddio ein sefyllfa i ddylanwadu a lloio, mae'r cynnydd wedi bod yn hynod araf er gwaethaf ein hymdrechion gorau. Mae cyflawni ein cynlluniau ar gyfer teithio cynaliadwy a llesol, a disodli Pont Llannerch, hefyd yn heriau allweddol y mae'r cyngor yn eu hwynebu.

## **Cymunedau Cryf**

Mae yna waith pwysig iawn wedi cael ei wneud o fewn ein blaenoriaeth Cymunedau Cryf, yn arbennig yng nghyd-destun y pandemig, gan ddangos cystal y mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu a helpu ein trigolion a mentrau cymunedol. Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys ein gwaith mewn perthynas ag iechyd meddwl, dod yn Gyngor sy'n Deall Dementia, ein cefnogaeth i ofalwyr a'n cymorth i brosiectau datblygu cymunedol yn ehangach. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig, ond fel gyda'r holl feysydd hyn, rydym yn cydnabod bod wastad mwy i'w wneud a bod galw a heriau cynyddol i'w hwynebu. Mae'r

cyngor yn parhau i ddiogelu a darparu gwasanaethau hanfodol a gwerthfawr i'r unigolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, ac yn cael adborth cadarnhaol ac anrhydeddau am ei ddarpariaeth mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gofal a llyfrgelloedd. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran costau gofal a recriwtio a chadw staff gofal. Rydym hefyd yn cydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud i gwblhau ein prosiect cyfranogi ar gyfer llunio a gwella gwasanaethau.

## **Yr Amgylchedd**

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd rhagorol gyda'i brosiectau Amgylcheddol dros y pum mlynedd diwethaf, nid yn unig drwy ei waith plannu coed helaeth, bioamrywiaeth amrywiol, gwarchod mannau gwyrdd agored, atal llifogydd a chodi ymwybyddiaeth am asedau pwysig y sir, ond hefyd gyda'i Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol. Fodd bynnag, mae bod yn awdurdod Di-garbon Net erbyn 2030 yn dal i fod yn risg gorfforaethol sylweddol, ac wrth i'r cyllid ar gyfer nifer o brosiectau allweddol ddod i ben, rhaid i'r cyngor edrych tua'r dyfodol at gyfleoedd pellach i amsugno a lleihau carbon, yn enwedig wrth iddo ddiyhysbyddu'r dewisiadau 'llwyddiannau cyflym'. Bydd hyfforddi ac ymgysylltu mwy â budd-ddeiliaid o fudd. Mae'r cyngor hefyd yn wynebu heriau o ran darparu tai cyngor sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, ymgorffori trefniadau rheoli gwastraff diwygiedig a chyflawni dau gynllun sylweddol pellach i amddiffyn yr arfordir . Mae hefyd yn bwysig bod y cyngor yn parhau gyda'i waith i sicrhau mynediad cyfartal at ein cefn gwlad a'n hasedau hanesyddol, yn enwedig ar gyfer unigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol, er mwyn bod o fudd i iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

## **Pobl Ifanc**

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da gyda'i brosiectau Pobl Ifanc dros y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig wrth gefnogi lles, sgiliau a lleoliadau gwaith. Fodd bynnag, mae yna heriau sylweddol yn codi o hyd yn sgil effaith Covid-19, sydd wedi effeithio ar ddatblygiad pobl ifanc a darpariaeth rhai prosiectau, ond yn enwedig o ran amserlennu a phresenoldeb mewn ysgolion, sydd wedi gwneud anghydraddoldeb addysgol yn fwy dybryd. Mae yna heriau'n codi hefyd o weithredu'r cwricwlwm newydd, yn arbennig o ran monitro safonau ysgolion, gyda chyrhaeddiad disgyblion yn gyffredinol yn parhau i fod ychydig o dan gyfartaledd Cymru. Mae cyfuniad o Covid-19 ac ansefydlogrwydd y farchnad hefyd yn achosi oedi a chostau cynyddol o fewn prosiectau cyfalaf, sy'n risg sylweddol i'r Rhaglen

Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (sef Rhaglen Ysgolion yr 21fed Ganrif yn flaenorol).

## **Swyddogaethau Llywodraethu – Iechyd Corfforaethol y Cyngor**

### **Cynllunio Corfforaethol**

Yn ogystal â dirwyn rhaglenni gwaith o'i Gynllun Corfforaethol 2017 i 2022 i ben, sydd wedi cynnig nifer o fanteision diriaethol i drigolion, mae'r cyngor wedi gwneud cryn dipyn o waith i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion deddfwriaethol sydd i ddod. Mae hyn wedi cynnwys y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd, yr angen i ddatblygu Amcanion Lles (bob pum mlynedd) dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyhoeddiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021 i 2022 dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2011. Mae'r cyngor wedi mynd i'r afael â'r ffrydiau gwaith strategol allweddol hyn yn dda, ac yn yr un flwyddyn, wedi penodi Prif Weithredwr newydd, parhau i ymateb i'r pandemig a gweithredu trefniadau ar gyfer dwy gronfa ddisodli'r Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Ffyniant Bro. Bydd yr heriau allweddol sydd o'n blaenau yn cynnwys adolygiad y Prif Weithredwr o'r Uwch Dîm Arwain; cyflwyno ein trefniadau Ffyrdd Newydd o Weithio; cynefino a hyfforddi ein cynghorwyr newydd o fis Mai ymlaen; a dod i ddeall ein perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig newydd Gogledd Cymru yn well. Mae camau gwella a nodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan, ond rydym yn cydnabod bod lle i ni ddysgu o'r pandemig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau tryloyw. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw boddhad cyffredinol cwsmeriaid gyda'r cyngor a'i gynlluniau hirdymor cystal ag yr hoffem ni iddo fod. Cynigir y dylai'r Cynllun Corfforaethol nesaf ganolbwyntio'n glir ar sut y mae'r cyngor yn gweithio, gan gynnwys gwasanaeth i gwsmeriaid, ymgysylltiad a'n perfformiad. Rydym wedi gweld ymgysylltiad da rhwng aelodau a swyddogion dros ddwy flynedd ddiwethaf y pandemig, ac mae gwaith ymchwil ac ymgysylltu â'r cyhoedd arbennig o gadarn wedi'i wneud i gefnogi darpar themâu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf, sef 2022 i 2027. Mae yna gynllun clir ar gyfer datblygu ein cynigion Cynllun Corfforaethol ymhellach gyda'r Cyngor newydd, a byddwn yn ceisio ei gymeradwyaeth yn gynnar ym mis Hydref.



## **Cynllunio Ariannol**

Gwelwyd fod trefniadau cynllunio ariannol y cyngor wedi bod yn gadarn ac mae'r cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Mae gan y cyngor gronfa wrth gefn sefydlog a dulliau monitro a chynllunio cadarn i fynd ati'n rhagweithiol i reoli pwysau, fel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, strategaethau Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf a phroses Osod Cyllideb newydd sy'n symud tuag at broses 3 i 5 mlynedd. Wrth gwrs, mae yna rai amrywiadau sylweddol o ran y gyllideb, ond rydym yn gweithio ar ddatrys y rhain, ac mae gennym hanes blaenorol da o gyflawni arbedion. Rydym hefyd wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer atal twyll a llygredigaeth. Mae'r oedi gyda'r Datganiad Cyfrifon drafft yn parhau i fod yn her oherwydd bod yr amserlenni'n effeithio meysydd gwaith eraill i'r Tîm Cyllid, ac felly'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau wrth symud ymlaen. Y risg a'r broblem fwyaf sylweddol y mae cynghorau a'r sector cyhoeddus yn ehangach wedi'i wynebu'n fwyaf diweddar yw pandemig Covid-19, yn ogystal â chynnydd byd-eang mewn costau. Mae'n galonogol gweld bod Strategaeth Adferiad Ariannol Covid-19 wedi darparu cynllun cadarn ar gyfer ymateb y cyngor. Maes gwaith arall fydd edrych tua'r dyfodol ar drosglwyddo gwasanaethau refeniw a budd-daliadau i'r cyngor.

## **Rheoli Perfformiad**

Mae gan y cyngor drefniadau rheoli perfformiad effeithiol sy'n ei helpu i fonitro, adrodd a chraffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol, yn ogystal â nodi meysydd i'w gwella. Mae'r trefniadau hyn wedi cael eu cryfhau'n ddiweddar gan ddull y cyngor o hunanasesu drwy adroddiadau perfformiad chwarterol ac ymgysylltiad blynyddol â budd-ddeiliaid. Gellir bellach symud ymlaen i wneud mân welliannau i Verto, ein system rheoli perfformiad, nad oedd yn bosib cyn ail-dendro'r feddalwedd yn ddiweddar. O fis Hydref ymlaen, bydd y Cynllun Corfforaethol newydd hefyd yn dod â chyfle i wella'r fframwaith perfformiad y mae'r cyngor yn adrodd arno'n gorfforaethol. Mae angen ystyried amseru'r Heriau Perfformiad Gwasanaethau yn y misoedd i ddod, wrth i'r sefyllfa o ran adolygiad yr Uwch Dîm Arwain ddod yn fwy amlwg. Mae'n bwysig bod y rhain yn mynd ymlaen i gydymffurfio â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad, yn ogystal â bodloni argymhellion diweddar gan Archwilio Cymru ar gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth. Rhaid i'r cyngor edrych tua'r dyfodol at gyfleoedd hyfforddi ar gyfer cynghorwyr yn dilyn yr etholiad, yn ogystal ag ar gyfer staff newydd neu staff presennol â

diddordeb. Mae'r cyngor wedi nodi'r camau y mae'n eu cymryd i wella Rheoli Prosiectau a Rheoli Contractau, ac yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gamau a nodwyd i wella darpariaeth rhai agweddau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

## **Rheoli Risg**

Bu i'r adran Archwilio Fewnol dynnu sylw at rai meysydd o wendid o ran rheoli risgiau, y ceisiodd y cyngor fynd i'r afael â nhw yn ystod 2021 i 2022 er mwyn sicrhau bod y prosesau llywodraethu a rheolaethau'n gadarn. Er enghraifft, rydym wedi nodi'n gliriach sut y mae methodoleg parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei defnyddio, ac wedi egluro rheolaethau ddylai gael effaith uniongyrchol ar reoli risg, gan nodi'r cyfeiriad teithio disgwylidig ar gyfer pob un o'n risgiau corfforaethol. Rydym wedi nodi sicrwydd mewnol ac allanol i wneud yn siŵr y caiff risgiau eu rheoli a'u craffu yn briodol. Mae ein Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi dechrau cwestiynu risgiau sydd y tu hwnt i'n parodrwydd i'w derbyn mewn sesiynau ffocws ar risgiau gyda pherchnogion y risgiau. Yn gyffredinol, rydym wedi canfod bod ymgysylltiad gyda'n proses rheoli risgiau wedi bod yn dda ymysg y swyddogion a'r aelodau. Fodd bynnag, wrth i ddigwyddiadau byd-eang ddod yn fwy arwyddocaol i'n cyngor ac i'n cymunedau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, felly hefyd nifer y risgiau gweithredol ar ein cofrestr risgiau corfforaethol. Mae digwyddiadau fel pandemig Covid-19, Brexit ac yn fwy diweddar, y gwrthdaro yn Wcráin, wedi cael effaith ar yr economi fyd-eang (a lleol) a'n cymunedau. Dyma pam ein bod wedi datblygu ein cofrestr risgiau corfforaethol i wella cysylltiadau mewnol. Bydd adroddiad diweddar llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mehefin 2022.

## **Cynllunio'r Gweithlu**

Mae cynllunio'r gweithlu wedi mynd yn bwysicach wrth i effeithiau Covid-19 ddwysáu'r heriau mewn perthynas â recriwtio a chadw ledled y cyngor. Rydym wedi mynd ati i sefydlu mesurau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Rydym hefyd wedi gwella'r data yr ydym yn ei ddal am ein gweithlu ein hunain er dibenion cydraddoldeb, ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r llwyth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sydd wedi cronni yn sgil Covid-19. Rydym wedi rhoi dull mwy cadarn o gynllunio'r gweithlu ar waith ac wedi cymryd rhan mewn astudiaeth Archwilio Cymru, y disgwylir iddi dynnu sylw at feysydd pellach i'w cryfhau. Mae nifer o newidiadau wedi bod yn ddiweddar o ran uwch reolwyr, a bydd hyn yn flaenoriaeth benodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y

flwyddyn, rydym wedi helpu rheolwyr a staff gyda'r ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig gweithio gartref, sef ein dull gweithio pennaf ers dechrau Covid-19. Rydym wedi ymgysylltu ag aelodau staff gan ddefnyddio holiadur i bennu gofynion hyfforddiant a datblygiad rheolwyr. Mae'r adborth o'r arolwg wedi llywio ein strategaeth hyfforddiant newydd, ac mae rhaglen gynefino, polisiau a chanllawiau wedi cael eu datblygu. Bydd sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer gweithwyr a rheolwyr yn cael eu cyflwyno o fis Gorffennaf ymlaen. Ar yr un pryd, rydym wedi canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles, ac wedi cytuno ar bolisi iechyd meddwl newydd sydd wedi arwain at sesiynau ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth ar-lein. Canolbwynt y flwyddyn sydd i ddod fydd cydweithio â'r Cyngor Staff i'n helpu i recriwtio Cefnogwyr Iechyd Meddwl. Bydd cefnogi'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio a helpu rheolwyr a staff wrth i ni ddechrau dychwelyd i'r swyddfa hefyd yn cynnig heriau a chyfleoedd.

## **Asedau**

Mae'r cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran ei asedau. Mae gennym rwydwaith eang iawn o ffyrdd a phontydd sy'n dirywio bob blwyddyn, portffolio mawr o adeiladau sydd angen cydweddu â'n huchelgais di-garbon sero a phwysau cynyddol ar ein hisadeiledd TGCh. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud gwelliannau. Rydym wedi mabwysiadu safonau sylfaenol ar gyfer carbon mewn defnydd ac wedi'i grynhoi, ac mae'n rhaid i bob un o brosiectau adeiladu annomestig y cyngor gadw at y rhain. Byddwn hefyd yn mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau newydd yn yr haf. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein ffyrdd a'n pontydd, gan gynnwys ymrwymiad £3 miliwn i wella ffyrdd yn ystod 2021 i 2022. Rydym wedi cyflwyno fframweithiau newydd i helpu cynnal a chadw eiddo sy'n ysgolion, ddim yn ysgolion a thai. Mae gennym weithdrefnau iechyd a diogelwch a diogelwch tân da wedi'u sefydlu. Mewn partneriaeth â Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym hefyd wedi datblygu camau gwella i liniaru llifogydd. Mae'r cyngor hefyd wedi cynyddu ei fuddsoddiad i sicrhau bod ei ddata'n cael ei reoli'n ddiogel ac i gefnogi gweithio gartref yn well. O edrych ymlaen, un o'n heriau cyntaf fydd paratoi ein swyddfeydd ar gyfer y Ffyrdd Newydd o Weithio, i wneud lle i fwy o aelodau staff, cyfarfodydd hybrid a gwahanol ddulliau gweithio.

## **Caffael**

Mae'r Tîm Caffael wedi gwneud rhai gwelliannau eleni i'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i wasanaethau, er mwyn annog arferion caffael da a chadw at y polisi caffael ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae heriau parhaus o ran recriwtio i swydd y Rheolwr Caffael wedi rhwystro cynnydd gydag amryw o gamau gweithredu i wella a datgarboneiddio caffael. Mae hyn wedi arwain at i aelodau presennol y tîm gymryd mwy o gyfrifoldeb yn ychwanegol at eu portffolios presennol. Nid oes gennym ddigon o arbenigedd penodol mewn perthynas ag ecoleg a datgarboneiddio, ond rydym yn gobeithio sicrhau cyllid ar gyfer swydd newydd yn ystod 2022 i 2023. Rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â chaffaeliadau ar y cyd, ac rydym yn gwella o ran gweithio gyda gwasanaethau i nodi cyfleoedd posib i gaffael ar y cyd. Mae hyn yn parhau i fod yn heriol ac mae terfynau amser partneriaid yn anghyson â'n rhai ni ar adegau ac wedi arwain at golli cyfleoedd, sydd y hwnt i'n rheolaeth. Mae'r Hwb Buddion Cymunedol yn llunio cysylltiadau rhwng busnesau a mentrau cymunedol, ac wedi gweld canlyniadau cadarnhaol gydag unigolion yn cael gwaith llawn amser o ganlyniad i'w lleoliadau gwaith. Mae sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Hwb yn parhau i fod yn her allweddol. Mae datblygu a mabwysiadu Strategaeth Gaffael newydd erbyn diwedd yr haf hefyd yn faes gwaith pwysig i ni ei gyflawni'n gywir.